

Hysbysiad Preifatrwydd ar gyfer unigolion sydd wedi defnyddio gwasanaethau tân ac achub (GTA)

Gwasanaeth tân ac achub

System Cofnodi Digwyddiadau

Gwybodaeth i unigolion

SUT RYDYM YN DEFNYDDIO EICH GWYBODAETH?

Os yw eich cartref neu eich busnes wedi defnyddio'r gwasanaeth tân ac achub drwy alwad frys, bydd eich gwybodaeth bersonol yn cael ei rhannu gyda'r Swyddfa Gartref at ddibenion ystadegol ac ymchwil.

SUT MAE'R WYBODAETH HON YN CAEL EI DARPARU?

Darperir y wybodaeth drwy'r IRS (System Cofnodi Digwyddiadau), gwefan a reolir gan y Swyddfa Gartref. Mae'n casglu gwybodaeth ar ddigwyddiadau y mae'r GTA yn eu mynychu, er enghraifft tanau, larymau ffug, damweiniau traffig ar y ffyrdd. Mae rhywfaint o'r wybodaeth yn bersonol ac yn sensitif felly bydd y Swyddfa Gartref yn gyfrifol am sicrhau bod yr holl ddata'n cael ei brosesu yn unol â deddfwriaeth Diogelu Data.

PAM RYDYN NI'N RHANNU'R WYBODAETH HON

Mae gwybodaeth a gesglir drwy'r IRS yn cael ei rhannu gydag Adrannau Llywodraeth eraill ac academyddion. Mae data'n cael ei rannu at ddibenion ystadegol ac ymchwil yn union, gyda chytundebau rhannu data ar waith ar gyfer data personol i sicrhau bod y broses rhannu data yn cydymffurfio gyda deddfwriaeth preifatrwydd data.

SUT MAE HYN YN EFFEITHIO ARNOCH CHI?

Ni fydd yn effeithio ar y gwasanaeth rydych chi'n ei gael. Bydd y wybodaeth a rennir yn cael ei thrin gyda gofal yn unol â'r gyfraith. Rydym yn casglu ac yn rhannu eich gwybodaeth i'n helpu i ddeall rôl a'r galw ar y gwasanaethau tân ac achub a llywio polisi tân a darpariaeth gwasanaeth yn y dyfodol.

OS YDYCH AM WYBOD MWY....

Mae Data IRS yn cael ei gasglu gan wasanaethau tân ac achub ar ran y Swyddfa Gartref (SG) at ddibenion ystadegol ac ymchwil yn unig. Nid yw'n ofynnol i wasanaethau tân ac achub gael caniatâd unigolion i ddarparu'r wybodaeth ond mae gan unigolion yr hawl i wybodaeth sut ac at ba ddiben mae'r data'n cael ei gasglu, ei gadw a'i ddefnyddio. Mae'n rhaid i'r prosesu fod yn gyfreithlon sydd, yn yr achos hwn, yn golygu bod y prosesu'n angenrheidiol ar gyfer perfformiad tasg sy'n cael ei chyflawni er budd y cyhoedd i fodloni swyddogaeth y Goron, Gweinidog y Goron neu adran llywodraeth.

Bydd eich gwybodaeth bersonol yn cael ei chadw a'i phrosesu gan y Swyddfa Gartref sydd wedi'i lleoli yn 2 Marsham Street, Llundain SW1P 4DF. Mae'r Swyddfa Gartref yn rheoli'r wybodaeth hon ar y cyd â gwasanaethau tân ac achub.

Mae gennych chi hawl i wrthod a chyfyngu ar y defnydd o'ch gwybodaeth bersonol, neu i ofyn i'ch data gael ei ddileu, neu ei gywiro. Hefyd, mae gennych chi'r hawl i gael cadarnhad bod eich data'n cael ei brosesu, ac i weld eich data personol. Mae manylion cyswllt i'w gweld isod.

Mae'r wybodaeth a gesglir gan yr IRS yn ymwneud ag achosion mae'r gwasanaeth tân ac achub wedi'u mynychu. Efallai bod rhywfaint o'r wybodaeth wedi'i darparu gennych chi ar adeg y digwyddiad. Bydd data personol a gesglir yn cael ei gadw at ddibenion ystadegol ac ymchwil am hyd at 70 mlynedd. Pan na fydd angen y data bellach, bydd yn cael ei ddinistrio mewn modd diogel.

Rydym yn ymwybodol bod rhywfaint o'r data a gesglir yn arbennig o sensitif: er enghraifft enwau a chyfeiriadau a grwpiau ethnig dioddefwyr tannau a digwyddiadau nad ydynt yn dannau. Dylech fod yn dawel eich meddwl bod yr holl wybodaeth a gesglir gan yr IRS yn cael ei drin yn unol â gofynion a chanllawiau Diogelu Data.

Caiff data ei gyhoeddi gan y SG mewn ffurf cyfanred yn chwarterol ac yn flynyddol fel rhan o amserlen o adroddiadau arferol a thablau ategol. I weld y cyhoeddiadau hyn ewch i <https://www.gov.uk/government/collections/fire-statistics>

Mae data IRS yn cael ei rannu gyda chyrrff sector cyhoeddus eraill at ddibenion ystadegol ac ymchwil yn unig. Er enghraifft, mae data'n cael ei rannu gyda'r Comisiwn Coedwigaeth i'w galluogi i nodi tannau gwyllt yn eu rôl ar gyfer llunio polisiau i ddelio gyda nhw. Mae rhagor o wybodaeth ar bwyllydd byddwn ni'n rhannu data personol gyda nhw i'w weld ar y wefan yma: <https://www.gov.uk/government/collections/fire-statistics>

Os ydych chi angen rhagor o wybodaeth ar sut mae eich gwybodaeth bersonol yn cael ei phrosesu, anfonwch e-bost atom ar firestatistics@homeoffice.gsi.gov.uk

Os ydych yn anhapus ag unrhyw agwedd ar y rhybudd preifatrwydd hwn, neu sut mae eich data personol yn cael ei brosesu, mae gennych chi hawl i wneud cwyn gyda Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO):
<https://ico.org.uk/concerns/>

Diweddarwyd diwethaf 11.5.18